MARCHOGAETH I JERWSALEM

Aeth Iesu i mewn i Jerwsalem ar gefn ebol doedd neb wedi bod ar ei gefn o'r blaen. Daeth tyrfa fawr o bobl i'w groesawu yn gweiddi "Hosanna" a "Bendith ar y Brenin!" Cafodd Iesu ei groesawu fel Brenin. Roedd yna rai Phariseaid oedd isio stopio'r dyrfa. Ond dwedodd Iesu os nad oedd y bobl yn gweiddi, y byddai'r cerrig yn galw allan. Wrth ddod yn agos at Jerwsalem a gweld y ddinas o'i flaen, dyma Iesu yn dechrau crio am ei fod yn gwybod beth oedd yn mynd i ddigwydd i'r ddinas.

"Mae'r Brenin sy'n dod i gynrychioli'r Arglwydd wedi'i fendithio'n fawr!" Heddwch yn y nefoedd a chlod i Dduw yn y goruchaf!" Luc 19:38

Ffindia'r cysgod!

Sut wnaeth y dyrfa groesawu Iesu?

Ffindia ddeilen tebyg i'r un yma: gwasga hi a'i gludo yma.

[Gwers 22]
Marchogaeth i Jerwsalem

Adnodau: Luc 19:28-44

Adnod allweddol: Luc 19:38

Nod: Bod y plant yn darganfod arwyddocad mynediad Iesu i Jerwsalem.

Noder!
Mae'n bwysig cynllunio gweithgareddau addas i'r plant yn eich grwp. Gellir addasu'r gweithgareddau yma gan ddibynnu ar maint y grwp, yr amser ar gael, oed a gallu'r plant.

1 Gwers

Cyn gweithio ar y daflen liwio, darllenwch hanes Iesu'n marchogaeth i mewn i Jerwsalem efo'r plant. Trafodwch y stori gan holi'r cwestiynau:

Awgrym: Efo plant iau gall yr athro adrodd y stori gan ddefnyddio pypedau papur neu glai. Gall y plant helpu drwy symud y pypedau o gwmpas.

Cwestiwn: Sut oedd Iesu yn gwybod y byddai'r disgyblion yn dod o hyd i'r ebol wedi ei rwymo? (ad 30)

Ateb: Mab Duw ydy Iesu. Mae o'n gwybod beth fydd yn digwydd yn y dyfodol.

Gwers: Ydy Iesu'n gwybod beth sy'n digwydd yn dy fywyd di?

Cwestiwn: Wnaeth y disgyblion ddod o hyd i'r ebol yn union fel roedd Iesu wedi dweud?

Ateb: Do, achos mae be mae Iesu'n ddeud yn dod yn wir. (ad 35)

Gwers: Wyt ti'n barod i roi rywbeth i'r Arglwydd? e.e. arian i'r eglwys, bwyd i bobl dlawd ayb.

Cwestiwn: Sut wnaeth y dyrfa ymddwyn pan wnaeth Iesu fynd i mewn i Jerwsalem?

Ateb: Roedden nhw'n meddwl ei fod yn dod yno i fod yn frenin. Doedden nhw ddim yn deall bod ei deyrnas ddim ar y ddaear. (ad 38)

Gwers: Wyt ti yn moli Iesu yntau wyt ti yn ymddwyn fel y Phariseaid? Wyt ti yn meddwl ei fod yn Frenin?

Cwestiwn: Pam wnaeth Iesu grio dros ddinas Jerwsalem?

Ateb: Am ei fod yn gwybod beth fyddai'n digwydd yn y dyfodol. (ad 42-44)

Gwers: Pan mae Iesu yn edrych arnat ti, ydy o yn hapus neu yn drist?

2 Gweithgareddau

1 Adnodd allweddol

a) Darllenwch yr adnod yn uchel.

"Mae'r Brenin sy'n dod i gynrychioli'r Arglwydd wedi'i fendithio'n fawr!" Heddwch yn y nefoedd a chlod i Dduw yn y goruchaf!" Luc 19:38

b) Eglurwch prif bwyntiau yr adnod:

- Can o fawl ydy hwn i Iesu.
- Bendithio – deud yn dda am Dduw, moli Duw.
- Y brenin sy'n dod i gynrychioli'r Arglwydd ydy Iesu, mab Duw.

c) Helpwch y plant i ddysgu'r adnod.

2. Cwestiynau adolygu:

Gwir neu anwir

- Daeth Iesu i mewn i Jerwsalem ar gefn ceffyl.
- Chwiliodd y disgyblion am amser hir cyn dod o hyd i'r ebol.
- Roedd y dyn oedd biau'r ebol yn hapus i Iesu ei gael.
- Gwnaeth y bobl roi eu cotiau ar y ffordd o flaen Iesu.
- Roedd y Phariseaid yn hapus iawn i weld hyn.
- Gwnaeth Iesu grio dros ddinas Jerwsalem.

Clo

Aeth Iesu i mewn i Jerwsalem dwy fil o flynyddoedd yn ol. Mae Iesu isio dod i mewn i dy fywyd di. Wyt ti isio iddo fod yn Frenin ar dy fywyd di? Wyt ti isio gweiddi Hosanna – achub ni? Paid anghofio y bydd y penderfyniad rwyt ti'n ei wneud heddiw yn newid gweddill dy fywyd di.